

SUT I WNEUD...

HOW TO MAKE...




mobile siarc

Gweithgareddau crefft sy'n canol bwyntio ar siarcod a morgathod yng Nghymru

a shark mobile

Craft activities focused on sharks, skates and rays in Wales



GWNEWCH EICH EICH MOBILE SIARC EICH HUN!

Mae Prosiect SIARC (Siarcod yn Ysbrydoli Gweithredu ac Ymchwil gyda Chymunedau) a Llyfrgelloedd Gwynedd yn cydweithio i greu gweithgareddau crefft sy'n canolbwyntio ar siarcod a morgathod yng Nghymru y gellir eu gwneud yn y llyfrgell, yn y cartref, mewn clybiau, yn yr ysgol, yn yr awyr agored ac unrhyw le arall y gallwch feddwl amdano!



Mae Prosiect SIARC yn dwyn ynghyd bysgotwyr, cymunedau lleol, ymchwilwyr a'r llywodraeth i ddiogelu a dathlu siarcod a morgathod yng Nghymru, a chynyddu cyfleoedd i bobl gael mynediad i'r arfordir a'r môr a chael profiad ohonynt. Amcanion Prosiect SIARC yw:

- pysgotwyr a gwyddonwyr yn cydweithio i rannu gwybodaeth a phrofiadau
- casglu gwybodaeth bwysig i ddeall siarcod a morgathod yn well
- gweithio gyda phartneriaid lleol i nodi ffyrdd i sicrhau y gall ystod ehangach o bobl gael mynediad i'r arfordir a'r môr, a chael profiad ohonynt
- plant ysgol yn defnyddio ffyrdd newydd o ddysgu i archwilio'r arfordir a'r môr
- partneriaethau â chymunedau lleol i gyflwyno gweithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion a phrofiadau dysgu
- dathlu bywyd morol a diwylliant lleol Cymru

Gellir dysgu mwy am sut i gymryd rhan ym Mhrosiect SIARC yn yr adrannau 'Cymryd Rhan' neu 'Adnoddau' ar wefan Prosiect SIARC (prosiectsiarc.com) sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau addysgol a gweithgareddau.

Gellir dod o hyd i holl ddiwyddiadau Llyfrgelloedd Gwynedd yn gwynedd.spydus.co.uk gan gynnwys y Clwb Crefft a'r Clwb Creu.

Sut allwn ni astudio siarcod?

Mae sawl math o siarc a morgath yn byw o amgylch arfordir Cymru. Ar y cyd gelwir yr anifeiliaid hyn yn elasmobranciaid. Mae ble mae'r anifeiliaid hyn yn hoffi byw a sut mae hyn yn newid drwy gydol y flwyddyn yn dal i fod yn ychydig o ddirgelwch.

Rydym yn defnyddio llawer o wahanol fathau o offer i astudio elasmobranciaid. Un offeryn rydym yn ei ddefnyddio yw BRUVS (Systemau/Arolygon Fideo Tanddwr o Bell ag Abwyd). Mae gan BRUVS gamera a blwch o abwyd (bwyd) i ddenu siarcod a morgathod. Pan ddaw anifail yn agos, mae'r camera yn recordio fideo ohono. Mae'r fideo hwn yn ein helpu i ddeall pethau fel pa mor fawr ydyn nhw, p'un a ydynt yn wryw neu'n fenyw, neu os ydyn nhw'n fabi, yn un ifanc, neu'n llawn dwf.

Mae Prosiect SIARC hefyd yn dal elasmobranciaid ac yn rhoi tagiau adnabod bach arnynt i'n helpu ni i olrhain ble mae'r anifeiliaid hyn yn mynd. Un math o dag rydym yn ei ddefnyddio yw 'tag adnabod acwstig', mae'r rhain yn gwneud sŵn bach sy'n unigryw i bob tag. Pan fydd siarc wedi'i dagio yn nofio heibio i orsaf wrando arbennig dan y dŵr (hydroffon) mae'r sŵn hwn yn cael ei recordio. Yna mae Prosiect SIARC yn casglu'r recordiadau o bob hydroffon ac yn eu hastudio i ddeall ble mae siarcod yn mynd a phryd.

Edrychwch ar ein gwefan i weld fideos o'n harolygon BRUV a chael gwybod mwy am weithio gyda maelgwn a chŵn glas.

CRAFT YOUR OWN SHARK MOBILE!

Project SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities) and Gwynedd Libraries are collaborating to create craft activities focused on sharks, skates and rays in Wales that can be done at the library, from home, at clubs, in school, outdoors and anywhere else you can think of!



Project SIARC brings together fishers, local communities, researchers and government to safeguard and celebrate sharks, skates and rays in Wales and increase opportunities for people to access and experience the coast and sea. Project SIARC's objectives are:

- Fishers and scientists work together, to share knowledge and experiences.
- Gather important information to better understand sharks, skates and rays
- Work with local partners to identify ways for a wider range of people to access and experience the coast and sea
- Schoolchildren use new ways of learning to explore the coast and sea
- Partner with local communities to deliver citizen science activities and learning experiences
- Celebrate Wales' marine life and local culture.

You can find out more about how to get involved with Project SIARC on the 'Get Involved' or 'Resources' sections on the Project SIARC website ProjectSIARC.com which includes a range of educational resources and activities.

All Gwynedd library events can be found as gwynedd.spydus.co.uk including Clwb Crefft and Clwb Creu

How can we study sharks?

Many kinds of sharks, skates, and rays live around the coast of Wales. Collectively these animals are called elasmobranchs. We still don't know much about where these animals like to live or how this changes throughout the year.

We use lots of different tools to study elasmobranchs. One tool we use are BRUVS (Baited Remote Underwater Video Systems/Surveys). BRUVS have a camera and a box of bait (food) to attract sharks, skates, and rays. When an animal comes close, the camera records a video of them. This footage helps us to understand things like the how big they are, whether they are male or female, or if they are a pup (baby), juvenile (a child), or an adult.

Project SIARC also catch and fit elasmobranchs with small identification (ID) tags to help us to track where these animals go. One type of tag we use is an 'Acoustic ID tag', these make a small sound which is unique to each tag. When a tagged shark swims past a special underwater listening station (hydrophone) this sound is picked up and recorded. Project SIARC then collect the recordings from each hydrophone and study them to understand where sharks are going and when.

Check out our website to view videos from our BRUV surveys and find out more about working with angelshark and tope.

DEUNYDDIAU CREFFT


CRAFT MATERIALS

Casglwch eich deunyddiau ynghyd. Byddwch angen y canlynol:

- Darn o gardbord maint plât cinio neu blât papur, ar gyfer top eich mobile
- Cardbord, er mwyn creu eich siarcod
- Pedwar darn o liny 30 cm o hyd, er mwyn hongian eich mobile
- O leiaf dwy wifr neu goesyn crefft blewog, er mwyn cysylltu eich siarcod â'ch mobile
- Ffon glud
- Tâp
- Pensel
- Siswrn
- Papur sidan gwyrdd, i ychwanegu gwymon
- Deunyddiau i addurno'ch siarcod a'ch mobile
- Gallwch ddod o hyd i 'Sut i wneud ... change to 'mobile siarc - templed ar gyfer siarcod' yn www.projectsarc.com er mwyn helpu gyda Cham 6, naill ai wedi'i argraffu neu i'w agor ar ddyfais

Gather your materials, you will need:

- A dinner plate sized piece of cardboard or a paper plate, for the top of your mobile
- Cardboard, for crafting your sharks
- 4 x 30cm pieces of String, for hanging your mobile
- 2 or more furry craft wires or stems, for attaching your sharks to your mobile
- A glue stick
- Tape
- A pencil
- Scissors
- Green tissue paper, for adding seaweed
- Materials to decorate your sharks and mobile
- The 'How to make...a shark mobile - template for sharks' from www.projectsarc.com to help with step 6. Either printed or open on a device




(Hepgorwch y cam hwn os oes gennych blât papur)
Crëwch y 'top' ar gyfer eich mobile trwy osod plât cinio
ar eich darn o gardbord a thynnu llun o amgylch y plât i
greu cylch.



(Skip this step if you have a paper plate) Create the
'top' for your mobile by placing a dinner plate onto
your piece of cardboard and draw around the plate to
create a circle.

Torrwch 'dop' crwn eich mobile.



Cut out your circular mobile 'top'.

Bydd angen i chi wneud pedwar twll yn 'nhop' crwn
eich mobile. Dychmygwch y rhifau ar gloc. Gwnewch
dwll drwy'r cardbord ar 12 o'r gloch, 3 o'r gloch,
6 o'r gloch a 9 o'r gloch.



You need to create four holes in your circular mobile
'top'. Imagine the numbers on a clock, poke a hole
through the cardboard at 12 o'clock, 3 o'clock, 6 o'clock
and 9 o'clock.



Nesaf, penderfynwch pa liw i'w ddefnyddio i addurno 'top' eich mobile er mwyn gwneud iddo edrych fel wyneb y môr! Ar wahanol ddiwrnodau ac mewn gwahanol leoedd, gall y môr fod yn lliwiau gwahanol. Mae hyn yn dibynnu ar y ffordd y mae golau'r haul yn rhyngweithio â dŵr y môr, dyfnder y dŵr, a pha bethau bach sy'n arnofio yn y dŵr.



Next, think about what colour to decorate your mobile 'top' so that it looks like the surface of the sea! On different days and in different places the sea can appear different colours. This is because of how sunlight interacts with seawater, the depth of the water, and what tiny things are floating in the seawater.

Ar ddiwrnod heulog, llonydd gall y môr ymddangos yn glir a glas. Ond ar ddiwrnod stormus neu gymylog, gall ymddangos yn llwyd neu'n frown. Addurnwch 'dop' eich mobile ac yna rhowch ef o'r neilltu am y tro.



On a still sunny day the sea may appear clear and blue, but on a stormy or cloudy day it might appear grey or brown. Decorate your mobile 'top' and then place your mobile 'top' to one side.

Mae'n amser tynnu llun eich siarc(od) ar eich cardbord. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar sut i wneud ci glas a maelgi yn 'Sut i wneud ... tegan siarc symudol - templed' neu gwnewch lun llawrydd!



It's time to draw your shark(s) onto your cardboard. Follow the instructions on how to make a Tope and an Angelshark in 'How to make... a shark mobile - template' or draw them freehand!

Ar ôl i chi wneud eich siarcod, mae'n bryd dechrau meddwl am eu haddurno! Mae siarcod a morgathod â lliw tebyg i'r lle maen nhw'n byw. Maen nhw'n tueddu i fod â boliau golau a chefnau tywyllach i helpu i atal ysglyfaeth rhag eu canfod (gelwir hyn yn wrthliwio). Edrychwch ar www.projectsarc.com am luniau i'ch ysbrydoli a meddyliwch am sut i addurno'ch siarcod.




Once you have made your sharks it's time to start thinking about decorating them! Sharks, skates and rays are similar colours to where they live. They tend to have light bellies and are darker on top to help prevent prey detecting them (this is called countershading). Check out www.projectsarc.com for some inspirational pictures and think about how to decorate your sharks.

Defnyddiwch wahanol ddefnyddiau fel papur, paent, pensiliau neu binnau ffelt i addurno'ch siarcod. Bydd siarcod, fel morgathod, sy'n byw ger gwely'r môr â chefnau yr un lliw â'r tywod, efallai, wedi'u britho â brown a llwyd. Mae hyn yn eu helpu i guddio (cuddliwio). Mae rhai siarcod, fel y ci glas, yn byw ar waelod y môr ac y nofio oddi yno ac maent yn arlliwiau o lwyd.



Use different materials like paper, paint, pencils or pens to decorate your sharks. Sharks, like angelsharks, that live close to the bottom of the sea might have backs which are the same colour as the sand, speckled in browns and greys. This helps them to hide (camouflage). Some sharks, like Tope, live and swim away from the bottom of the sea and are shades of grey.

Ar ôl i chi addurno pob ochr i bob siarc, ychwanegwch eu cegau a'u tagellau.




Once you have decorated all sides of each shark add their mouths and gills


Os nad ydych chi wedi gwneud hynny eisoes, rhowch dyllau yng nghefn eich siarcod lle mae'r dot ar y templed (cam 6) i'ch help i'w gysylltu â thop eich mobile.

Bwydwch wifren neu goesyn crefft blewog trwy'r twll ar gefn eich siarc. Dyma beth fyddwch chi'n ei ddefnyddio i gysylltu eich siarcod â 'thop' y mobile.

Dewiswch lle'r ydych am gysylltu eich siarcod â sylfaen eich mobile a rhowch ddau yn sownd yn y sylfaen ar gyfer pob siarc.



If you haven't already, poke holes into the back of your sharks where the dot is on the template (step 6) to help you attach it to your mobile top.



Feed a furry craft wire or stem through the hole on your sharks back. This is what you will use to attached your sharks to the mobile 'top'.




Choose where you will be attaching your sharks to your mobile base and poke two into the base per shark.

Mae gwahanol siarcod yn byw mewn gwahanol rannau o'r môr. Mae maelgwn yn byw yn agos at y gwaelod, yn gorffwys ar y tywod ac yn aros i fwyd nofio heibio. Cysylltwch eich maelgi â sylfaen eich mobile trwy roi pen rhydd eich gwifren neu goesyn crefft blewog trwy'r tyllau a wnaethoch yng Ngham 10.

Gellir dod o hyd i'r ci glas yn gorffwys ar wely'r môr, neu'n uwch i fyny oddi wrth wely'r môr yn nofio o gwmpas yn chwilio am fwyd (mae hyn yn golygu eu bod yn fenthopelagic). Cysylltwch eich ci glas â sylfaen eich mobile trwy roi pen rhydd eich gwifren neu goesyn crefft blewog trwy'r tyllau a wnaethoch yng Ngham 10. Dylai'r maelgwn hongian yn is ar eich mobile, fel pe baent yn gorffwys ar y gwaelod, a dylai'r cŵn glas hongian yn uwch.

Wrth i siarcod nofio drwy'r môr, gallant ddod ar draws pob math o wahanol anifeiliaid yn ogystal â gwymon. Ychwanegwch wymon o bapur sidan at eich mobile neu crëwch eich anifeiliaid môr ychwanegol eich hun (fel pysgod neu bysgod cregyn) a'u cysylltu yn yr un ffordd ag yr ydych wedi cysylltu'r siarcod.



Different sharks live in different parts of the sea. Angelsharks live close to the bottom, resting on the sand and waiting for food to swim by. Attach your Angelshark to your mobile base by threading the free end of your furry craft wire or stem through the holes you made in step 10.



Tope can be found resting on the seabed, or up and away from the seabed swimming around looking for food (this means they are benthopelagic). Attach your tope to your mobile base by threading the free end of your furry craft wire or stem through the holes you made in step 10. Angelsharks should hang lower on your mobile, like they are resting on the bottom, topes should hang higher.



As sharks swim through the sea they may encounter all sorts of different animals as well as seaweed. Add tissue paper seaweed to your mobile or create your own extra sea animals to add (like fish or shellfish) and attach them in the same the way as you have attached the sharks

Rhowch eich darn crefft o'r neilltu am eiliad a chodi eich llinyn. Cymerwch y pedwar darn llinyn yn un llaw a'u clymu at ei gilydd ar un pen.

Estynnwch eich darn crefft. Cysylltwch bennau rhydd eich llinyn â thop eich mobile trwy roi'r llinyn trwy'r tyllau a grëwyd yng Ngham 3. Defnyddiwch dâp i ludo'r llinyn wrth y cardbord.

Mae eich mobile nawr wedi'i orffen! Trowch y mobile yn ysgafn yna gollyngwch ef i weld y siarcod yn nofio!




Put your craft to one side and pick up your string. Take all 4 pieces of string in one hand and tie them together using a knot at one end.



Retrieve your craft. Attach the loose ends of your string to your mobile top by threading the string through the holes created in step 3. Tape the ends of the string to the cardboard.



Your mobile is now finished! Gently twist the mobile around then let it go to see the sharks taking a swim!



BETH NESAF?

WHAT'S NEXT?

Gadewch i'ch dychymyg nofio'n wyllt!


Fe allech chi wneud y canlynol:

- Dewiswch siarc neu forgath wahanol i'w hychwanegu at eich mobile
- Defnyddiwch bapur neu gerdyn gwedog i wneud eich siarcod, gan ychwanegu gwedog at eu croen
- Byddwch yn greadigol a dyluniwch siarc neu forgath newydd sbon!
- Ychwanegwch rywbeth arall at eich mobile nad yw'n greadur môr, gwymon na siarc



Let your imagination swim wild!

You could:




- Pick a different shark, skate or ray to add to your mobile
- Use textured paper or card to make your sharks, adding texture to their skin
- Get creative and design a whole new shark, skate or ray!
- Add something else to your mobile that isn't a sea creature, seaweed or shark





-  gwynedd.spydus.co.uk
-  [LlyfrgellGwyneddLibrary](https://www.facebook.com/LlyfrgellGwyneddLibrary)
-  [@llyfrgellgwyneddlib](https://www.instagram.com/@llyfrgellgwyneddlib)



-  [Prosiect SIARC | Project SIARC](#)
-  [Project SIARC](#)
-  [@projectsiarc](#)

Peidiwch ag anghofio rhannu eich crefftau â ni drwy dagio Prosiect SIARC a gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd ar y cyfryngau cymdeithasol.

Don't forget to share your crafts with us by tagging Project SIARC and Gwynedd Library service on social media.

Mae Prosiect SIARC wedi'i ariannu gan:

Project SIARC is kindly funded by:



Mewn Partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
In Partnership with
Welsh Government



Partneriaid y prosiect:

Project partners:

